Rhif: **WG14470**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau Drafft i ategu

Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011

Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

a Wnaed o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010

ac

Ymgynghoriad ar faterion sy'n effeithio ar ddad-ddyfrio, dosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA)

Dyddiad cyhoeddi: **16 Ionawr 2012**
Dyddiad cau: **16 Ebrill 2012**

## Trosolwg

Mae Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 yn diffinio ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio at ddibenion y targedau a bennwyd yn adran 3 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Mae Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 yn nodi sut y caiff cydymffurfiaeth â thargedau ei monitro ynghyd â'r drefn gosbi am fethu â chydymffurfio.

Caiff y canllawiau eu paratoi o dan adran 7 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 ac maent yn ategu'r diffiniadau a geir yn y Gorchymyn a'r drefn fonitro a nodir o dan reoliadau 4 a 5 o'r Rheoliadau.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio ymatebion i'r Canllawiau drafft ac i ystyriaethau o ran dad-ddyfrio, dosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA).

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ysgrifenedig i:

Catherine Reynolds
Swyddog Cymorth Prosiect
Cangen Strategaeth Wastraff
Llywodraeth Cymru
Llawr 2, Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0TP

Neu drwy wefan Strategaeth Wastraff Llywodraeth Cymru:

WasteStrategy@Wales.Gsi.Gov.Uk

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

Canllawiau Drafft i ategu Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011.

Ymgynghoriad ar ddad-ddyfrio, dosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA)

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Russell Owens
Cangen Strategaeth Wastraff
Llywodraeth Cymru
Llawr 1, Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0TP

E-bost: Russell.Owens@environment-agency.wales.gov.uk

Ffôn: 029 2046 8894

## Cwestiynau ymgynghori:

Y cwestiynau sy'n rhan o'r ymgynghoriad ail gam ar y: Canllawiau Drafft i ategu Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 yw:

**Cwestiwn 1** - Yn eich barn chi, a oes angen esboniad pellach o'r hyn sy'n cyfrif fel gwastraff trefol awdurdod lleol? Os felly, nodwch pa esboniad pellach sydd ei angen.

**Cwestiwn 2** - Yn eich barn chi, a oes angen gwneud unrhyw ychwanegiadau at y gwastraff a allai gyfrif tuag at dargedau adfer awdurdod lleol? Os felly, nodwch beth ddylai'r newidiadau hynny fod a pham y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.

**Cwestiwn 3** - Yn eich barn chi, a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r disgrifiad o'r gofynion adrodd i ategu targedau paratoi i ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio awdurdod lleol? Os felly, nodwch beth ddylai'r newidiadau hynny fod a pham y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.

**Cwestiwn 4** - Yn eich barn chi, a ddylai Gweinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyfleuster sy'n rheoli gwastraff yng Nghymru gyflwyno adroddiadau ar faint o ddeunydd y mae'n ei wrthod, cyrchfannau nesaf deunyddiau a anfonir o'r cyfleusterau hyn a gwybodaeth gysylltiedig arall?

Y cwestiynau sy'n rhan o'r ymgynghoriad ar ddad-ddyfrio, dosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA) yw:

**Cwestiwn 5** - A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddad-ddyfrio? Os nad ydych, esboniwch beth ddylai'r dull fod, yn eich barn chi.

**Cwestiwn 6** - Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddosrannu (i) gweddillion treuliad anerobig a chompostau, (ii) lludw gwaelod llosgydd wedi'i ailgylchu a (iii) gweddillion rheoli llygredd aer (APCR) tuag at dargedau adfer? Os nad ydych, esboniwch beth ddylai'r dull fod yn eich barn chi.

WG14470 ©Hawlfraint y Goron 2012

# Gynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | 1 |
| 2.0 | Targedau | 2 |
| 3.0 | Diffiniadau | 3 |
| 3.1 | Gwastraff i'w gynnwys fel Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol Gwastraff | 3 |
| 3.1.1 | Compostio gartref | 3 |
| 3.1.2 | Pridd a rwbel | 3 |
| 3.1.3 | Cerbydau wedi'u gadael | 4 |
| 3.1.4 | Gwastraff glanhau'r traeth | 4 |
| 3.1.5 | Bwrdd plastr | 4 |
| 3.1.6 | Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) | 4 |
| 3.1.7 | Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR) | 4 |
| 3.1.8 | Teiars | 5 |
| 3.1.9 | Gwastraff clinigol | 5 |
| 3.1.10 | Ysgubion ffordd a gwastraff rhigolau | 5 |
| 3.1.11 | Asbestos | 5 |
| 3.2 | Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio | 6 |
| 3.2.1 | Diffiniad o ailgylchu a'r defnydd o feini prawf Diwedd Oes Gwastraff | 6 |
| 3.2.2 | Diffiniad o baratoi i ailddefnyddio | 8 |
| 3.2.3 | Diffiniad o gompostio | 9 |
| 4.0 | Monitro a chyflwyno adroddiadau | 10 |
| 4.1 | WasteDataFlow a gofynion cyflwyno adroddiadau | 10 |
| 4.2 | Cyrchfannau terfyn a chyfraddau gwrthod | 10 |
| 4.3 | Dyrannu deunyddiau a wrthodwyd a samplu mewn CyfleusterauAilgylchu Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill | 11 |
| 4.4 | Amseru'r broses o fewnbynnu data adfer (ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio) ar WasteDataFlow | 14 |

# 1.0 Cyflwyniad

Daeth Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 i rym ar 30 Mawrth 2011. Mae'r ddau offeryn statudol wedi'u gwneud o dan ddarpariaethau ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ac maent yn ategu'r targedau adfer statudol a nodwyd yn y Mesur.

Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn pennu targedau adfer statudol yn unol â *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, y ddogfen strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru a Rhan 1 o'r *Cynllun Sector Trefol*.

Diben y canllawiau hyn yw egluro'r diffiniadau o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a geir yn y Gorchymyn a'r gofynion monitro a chyflwyno adroddiadau a geir yn y Rheoliadau.

Ymgynghorwyd ar y rhan fwyaf o'r meysydd a gwmpesir yn y Canllawiau hyn yn ystod yr ymgynghoriad ar Orchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 a Chanllawiau cysylltiedig, rhwng 1 Rhagfyr 2010 a 26 Ionawr 2011.

Mae'r Canllawiau a ailddrafftiwyd yn ystyried sylwadau a gafwyd yn ystod cam cyntaf yr ymgynghoriad. Nid ymgynghorwyd ar rai meysydd o'r Canllawiau drafft yn flaenorol a cheisir barn ar y rhain yn ail gam yr ymgynghoriad.

Drwy gydol y Canllawiau hyn cyfeirir at dargedau adfer, gan adlewyrchu'r ffaith bod ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) yn weithrediadau adfer. At ddibenion y targedau a bennwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) a'r Canllawiau hyn, ystyr adfer yw ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) **yn unig** - fel y nodir yn adrannau 3(2) a 3(5) o'r Mesur.

## 2.0 Targedau

Mae'r targedau a nodwyd yn adran 3 (3) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 ac atodlen 5 i Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau) 2010 yn gweithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cymdeithas sy'n ailgylchu llawer. Pennwyd y targedau yn dilyn ymgynghoriad helaeth drwy bapurau *Future Directions*[1], ymgynghoriad ar *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a Rhan 1 o'r *Cynllun Sector Trefol*.

Mae pob targed yn gymwys i awdurdodau lleol unigol yng Nghymru. Caiff y targedau eu monitro drwy Ddangosyddion Perfformiad blynyddol, sy'n deillio o ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol drwy gronfa ddata gwastraff genedlaethol WasteDataFlow.

Mae'r targedau'n seiliedig ar y tunelledd net (h.y. llai deunyddiau a wrthodwyd) o wastraff a gaiff ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) wedi'i rannu gan gyfanswm y tunelli o wastraff trefol awdurdod lleol a gasglwyd:

$$\text{Adfer cyffredinol (\%)} = \frac{\text{Gwastraff a gaiff ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio}}{\text{Cyfanswm gwastraff trefol awdurdod lleol}} \times 100$$

Mae'r targedau a bennwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn dargedau adfer gofynnol (h.y. ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio). :

| | 2012-13 | 2015-16 | 2019-20 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| Targed adfer % | O leiaf 52 | O leiaf 58 | O leiaf 64 | O leiaf 70 |

Y targedau adfer gofynnol (h.y. ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio) ar gyfer pob blwyddyn o 2012-13 yw:

2012-13 = 52%
2013-14 = 52%
2014-15 = 52%
2015-16 = 58%
2016-17 = 58%
2017-18 = 58%
2018-19 = 58%
2019-20 = 64%
2020-21 = 64%
2021-22 = 64%
2022-23 = 64%
2023-24 = 64%
2024-25 = 70%

[1] Cyfres o dri phapur trafod polisi oedd papurau Future Directions a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Hydref 2007 a mis Ebrill 2009.

# 3.0 Diffiniadau

Mae'n bwysig ystyried materion yn ymwneud â diffiniad yn eu tro. Yn adran 3.1 isod ceir eglurhad o ystyr gwastraff trefol awdurdod lleol. Yn 3.2 esbonnir pa fathau o'r gwastraff hwn y gellir ei ystyried yn wastraff wedi'i ailgylchu, wedi'i baratoi i'w ailddefnyddio neu wedi'i gompostio (yn cynnwys gwastraff wedi'i dreulio'n anerobig).

## 3.1 Gwastraff i'w gynnwys fel gwastraff trefol awdurdod lleol

O dan adran 3(8) o Fesur Gwastraff (Cymru), mae gwastraff trefol awdurdod lleol yn cynnwys gwastraff a gasglwyd o dan adran 45 ac isadrannau 1(b) a (3) o adran 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae hefyd yn cynnwys gwastraff arall fel y nodir gan orchymyn Gweinidogion Cymru.

Dim ond gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol neu eu hasiantau o dan yr adrannau perthnasol o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (y cyfeirir ati uchod) a gaiff ei ystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol ac a gaiff ei gynnwys o dan y drefn targedau adfer statudol.

Caiff rhai mathau penodol o wastraff eu hystyried yn eu tro.

### 3.1.1 Compostio gartref

Ni chaiff deunydd a gaiff ei gompostio yn y cartref ei gasglu gan awdurdodau lleol o dan adrannau 45 neu 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac felly nid yw'n wastraff trefol awdurdod lleol ac nid yw ychwaith yn cyfrannu at y targedau adfer statudol.

### 3.1.2 Pridd a rwbel

At ddibenion y targedau adfer statudol, ystyrir pridd a rwbel a ddosberthir gan drigolion yn ardal yr awdurdod lleol i gyfleusterau (safleoedd amwynder dinesig a chanolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi) a ddarperir o dan adran 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn wastraff trefol awdurdod lleol. Bydd ychydig o bridd a rwbel a ddosberthir gan fasnachwyr hefyd yn cyfrif fel gwastraff trefol awdurdod lleol.

**Caiff faint o bridd a rwbel a gofnodir drwy WasteDataFlow[2] ei fonitro a'i adolygu'n barhaus - ac os oes tystiolaeth bod cynnwys pridd a rwbel tuag at dargedau adfer yn ystumio cyfraddau i'r fath raddau fel bod swm y deunyddiau pacio a deunyddiau eraill â blaenoriaeth[3] y mae angen eu hailgylchu yn lleihau, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio diwygio Mesur Gwastraff (Cymru) i eithrio pridd a rwbel rhag cyfrif tuag at dargedau ailgylchu yn y dyfodol.**

[2] WasteDataFlow yw'r gronfa ddata gwastraff genedlaethol a ddefnyddir i fonitro perfformiad awdurdod lleol yn erbyn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi a dangosyddion perfformiad – gan gynnwys y rheini sy'n monitro perfformiad yn erbyn y targedau adfer statudol.

[3] Nodir deunyddiau â blaenoriaeth yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Yn achos gwastraff cartrefi, maent yn cynnwys gwastraff bwyd, plastigau a phapur.

### 3.1.3 Cerbydau wedi'u gadael

Nid yw cerbydau wedi'u gadael yn wastraff trefol awdurdod lleol ac **nid** yw eu hailgylchu yn cyfrif tuag at dargedau ailgylchu statudol. Dylai data yn ymwneud â rheoli cerbydau wedi'u gadael barhau i gael ei fewnbynnu ar WasteDataFLow.

### 3.1.4 Gwastraff glanhau'r traeth

Gwastraff trefol awdurdod lleol yw gwastraff glanhau'r traeth yn rhinwedd Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992, sy'n cynnwys gwastraff a gesglir o dan adran 89(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel gwastraff cartref. Mae'r gwastraff hwn yn cynnwys gwastraff o dir perthnasol prif awdurdod sbwriel. O ganlyniad, caiff y gwastraff hwn ei gwmpasu gan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac fe'i hystyrir felly yn wastraff trefol awdurdod lleol at ddibenion y targedau a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010. Er mwyn egluro, mae tir perthnasol yn y cyd-destun hwn yn cynnwys ardaloedd o draethau sydd dan reolaeth uniongyrchol awdurdod lleol, y caniateir i'r cyhoedd fynd yno ac sy'n uwch na'r man y mae'r llanw'n llifo ato pan fydd gorllanw cymedrig.

### 3.1.5 Bwrdd plastr

Gall bwrdd plastr gyfrif tuag at y targedau lle caiff ei gasglu mewn cyfleusterau casglu awdurdod lleol a ddarperir o dan adran 51 neu ei gasglu o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Dylid casglu ac ailgylchu bwrdd plastr ar wahân ac ni ddylid ei anfon i safle tirlenwi gyda gwastraff bioddiraddadwy.[4]

### 3.1.6 Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)

Er mwyn egluro, ystyrir bod IBA [a gweddillion ynni eraill o brosesau gwastraff, e.e. torgoch o nwyeiddio, ond heb gynnwys gweddillion rheoli llygredd aer (APCR), gweler isod] a gynhyrchir ar ôl hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol arall (h.y. gwastraff a gesglir o dan adrannau 45 a 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn wastraff trefol awdurdod lleol.

### 3.1.7 Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)

Mae APCR, y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'lludw sy'n codi' yn isgynnyrch y broses o hylosgi gwastraff a chyflwyno deunyddiau i niwtraleiddio neu ddal allyriadau nwyol a gronynnol o'r broses hylosgi. Ystyrir bod y gyfran honno o APCR a gynhyrchir yn uniongyrchol o'r broses o hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol (h.y. gwastraff a gesglir o dan adrannau 45 a 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn wastraff trefol awdurdod lleol.

**Wrth gyfrifo cyfran yr APCR sy'n wastraff trefol awdurdod lleol, mae'n bwysig bod pob deunydd a ychwanegir at gynhyrchion hylosgi i'w niwtraleiddio yn cael ei eithrio. Ychwanegir y deunyddiau hyn i drin cynhyrchion y broses o hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn**

---

[4] Canllawiau ar fwrdd plastr a gynhyrchwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd: http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/PS_007_Landfilling_gypsum_rev_Jan_2011.pdf.

**wastraff trefol awdurdod lleol. Dim ond pwysau sych APCR sy'n deillio o gynhyrchion y broses o hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol y dylid ei gynnwys yn WasteDataFlow.**

### 3.1.8 Teiars

Nid yw teiars yn wastraff trefol awdurdod lleol os cânt eu casglu fel cyfansoddion cerbydau wedi'u gadael. Lle caiff teiars eu casglu o dan adrannau 45 neu 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 byddant yn cyfrif tuag at wastraff trefol awdurdod lleol. Disgwylir mai dim ond nifer fach o deiars a gesglir drwy'r llwybrau hyn. Lle bydd awdurdod lleol yn clirio gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon yn ei rinwedd fel Awdurdod Casglu Gwastraff neu brif awdurdod sbwriel, yna caiff unrhyw deiars a gesglir eu hystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol. Ni ellir tirlenwi teiars cyfan na theiars wedi'u malu gan fod y gweithgarwch hwn wedi'i wahardd o dan Gyfarwyddeb Tirlenwi'r UE.[5]

### 3.1.9 Gwastraff clinigol

Ystyrir mai cyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dan sylw yw unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn cartref yn dilyn triniaeth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref hwnnw. Lle bydd gwastraff gofal iechyd yn beryglus (e.e. lle bydd yn cynnwys hylifau heintus y corff) yna y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am drefnu bod y gwastraff hwnnw'n cael ei gasglu a'i waredu.

Gellir gwaredu gwastraff hylendid (cadachau misglwyf, cewynnau a phadiau anymatal) gyda gwastraff y cartref ar yr amod nad yw'n beryglus.

Bydd unrhyw wastraff clinigol a gesglir ar ran awdurdod lleol o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn wastraff trefol awdurdod lleol.

### 3.1.10 Ysgubion ffordd a gwastraff rhigolau

Caiff ysgubion y ffordd a'r stryd eu casglu o dan adran 89(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac maent wedi'u cynnwys fel gwastraff cartref yn Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992. O ganlyniad, cwmpesir y gwastraff hwn gan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac felly gwastraff trefol yr awdurdod lleol ydyw.

Mae gwastraff rhigolau (gwastraff o sianelau draenio ar ffyrdd a meysydd parcio i botiau tanddaearol) yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau yn cynnwys graean, dail a sbwriel. Lle cesglir y rhain o dan adran 89(2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gwastraff cartrefi a gwastraff trefol awdurdod lleol ydyw.

### 3.1.11 Asbestos

Gall trigolion ddyddodi ychydig bach o asbestos mewn safleoedd amwynder dinesig o dan adran 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall awdurdodau lleol hefyd

---

[5] Cyfarwyddeb y Cyngor 99/31/EC.

drefnu i gasglu asbestos o gartrefi o dan adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn y ddau achos, bydd y gwastraff yn wastraff trefol awdurdod lleol.

***Cwestiwn 1 - Yn eich barn chi, a oes angen esboniad pellach o'r hyn sy'n cyfrif fel gwastraff trefol awdurdod lleol? Os felly, nodwch pa esboniad pellach sydd ei angen.***

### 3.2 Ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio

Bydd y gwaith o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio'r holl ddeunyddiau y cadarnheir mai gwastraff trefol awdurdod lleol ydyw yn 3.1. yn cyfrif tuag at dargedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio awdurdod lleol.

#### 3.2.1 Diffiniad o ailgylchu a'r defnydd o feini prawf Diwedd Oes Gwastraff

Er mwyn ystyried gwastraff yn wastraff wedi'i ailgylchu mae'n rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir yn Erthygl 3 o Orchymyn Targedau Ailgychu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 - mae'n rhaid ei fod wedi cael ei adfer mewn ffordd berthnasol fel ei fod wedi'i ailbrosesu'n gynnyrch, deunydd neu sylwedd, boed hynny at ei ddiben gwreiddiol neu at ddiben arall. O ran gwastraff o'r fath yn cyfrif tuag at dargedau, dylid rhoi sylw penodol i adran 4.3 o'r Canllawiau hyn.

Yn achos llawer o ddeunyddiau gwastraff, bydd angen pennu ar ba bwynt y mae deunydd yn peidio â bod yn 'wastraff'. Yn aml, bydd hyn drwy gyfeirio at gydymffurfiaeth â meini prawf penodol o ran diwedd oes gwastraff; esbonnir hyn yn Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig.[6]

Mae Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb honno yn diffinio cysyniad statws diwedd oes gwastraff, y gellir ei grynhoi fel isod. Er mwyn peidio â bod yn wastraff mwyach mae'n rhaid i sylwedd neu wrthrych fodloni meini prawf a ddatblygwyd yn unol â'r amodau canlynol:

- Rhaid ei ddefnyddio'n gyffredin at ddibenion penodol.
- Rhaid bod marchnad neu alw amdano ar hyn o bryd.
- Rhaid iddo fodloni unrhyw ofynion technegol cymwys at ei ddiben penodol, neu ddeddfwriaeth a safonau sy'n bodoli eisoes.
- Ni ddylai'r defnydd a wneir ohono arwain at effaith ar yr amgylchedd nac iechyd pobl.

Gellir pennu meini prawf diwedd oes gwastraff penodol perthnasol ar lefel Ewropeaidd neu, os nad ar y lefel honno, ar lefel Aelod-wladwriaeth.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno Rheoliad yn nodi meini prawf diwedd oes gwastraff ar gyfer metelau sgrap (fferrus ac alwminiwm), ac mae'n cynnig deddfwriaeth debyg ar gyfer copr, papur, gwydr a phlastigau. Mae deddfwriaeth sy'n cwmpasu biowastraff wrthi'n cael ei pharatoi.

---

[6] Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/98/EC.

Yn y DU, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn cydweithio i gynhyrchu Protocolau Ansawdd. Bwriedir i'r rhain helpu i nodi pan fydd rhywbeth yn mynd yn gynnyrch ac yn peidio â bod yn wastraff. Mae'r protocolau ansawdd sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys y deunyddiau canlynol:

Olew coginio gwastraff a braster anifeiliaid wedi'i rendro (biodiesel).

Compost a gweddillion treuliad anerobig yn y drefn honno.

Gwydr gwastad.

Cynhyrchu agregau o wastraff anadweithiol.

Gwastraff plastig nad yw'n ddeunydd pacio.

Deunyddiau rwber sy'n deillio o deiars.

Cynhyrchu a defnyddio gypswm o fwrdd plastr gwastraff.

Olew tanwydd wedi'i brosesu o olew iro gwastraff.

Lludw tanwydd a lludw gwaelod ffwrnais maluriedig.

Caiff y broses o ddatblygu protocolau ansawdd ei hystyried ar gyfer deunyddiau eraill. Un enghraifft yw lludw gwaelod llosgydd (IBA) lle mae grŵp cynghori technegol yn casglu gwybodaeth i ddangos a ellir datblygu protocol ansawdd ai peidio.

Mae angen deall lle nad oes protocol ansawdd ar gyfer deunydd penodol nad yw hynny o reidrwydd yn atal y deunydd rhag cyflawni statws diwedd oes gwastraff.

Ni ddylid cyfrif deunyddiau a wrthodwyd yn ystod proses o ddidoli ar ôl casglu neu ar gam ailbrosesu am eu bod yn halogedig tuag at dargedau adfer (oni adferir yr halogyddion eu hunain yn dilyn hynny). Rhaid i bob deunydd a gaiff ei wrthod rhwng y broses gasglu ac ailbrosesu terfynol gael ei gofnodi cyhyd ag y bo'n ymarferol ac ni fydd yn cyfrif tuag at y broses o gyfrifo cyfraddau adfer drwy system WasteDataFLow. Nid yw hyn yn cynnwys deunyddiau a wrthodwyd yn ystod gwaith ailbrosesu o ganlyniad i'r broses ei hun (e.e. ffibrau byr a gronynnau clai a wrthodwyd yn ystod gwaith ailbrosesu papur).

Nid ystyrir bod dŵr a gollir yn ystod prosesau sy'n trin gwastraff 'sych y gellir ei ailgylchu' (e.e. papur, gwydr, metelau a phlastigau) sydd wedi gwlychu o ganlyniad i'r glaw neu ffynonellau eraill o ddŵr, wedi'i ailgylchu ac ni all gyfrannu at y targedau adfer. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa mewn perthynas â chompostio neu dreuliad anerobig gwastraff dŵr neu wastraff gwyrdd, lle caiff pwysau'r deunyddiau dan sylw (llai halogiad) ei gyfrif tuag at y targedau adfer. Mae dŵr yn gydran gynhenid o ddŵr a gwastraff gwyrdd ac mae'n cyfrannu at y targedau adfer ar gyfer y deunyddiau hyn. Nid yw dwr yn gydran gynhenid o wastraff 'sych y gellir ei ailgylchu'.

Dim ond os bydd graean o wastraff anadweithiol[7] yn peidio â bod yn wastraff (gan fodloni meini prawf diwedd oes gwastraff drwy gydymffurfiaeth â Phrotocolau Ansawdd) y gellir ystyried ei fod wedi'i ailgylchu ac os caiff ei ddefnyddio neu

[7] Diffinir yn Atodiad C i'r Protocol Ansawdd ar Agregau.

bwriedir ei ddefnyddio mewn modd nad yw'n ymwneud ag ôl-lenwi. Os yw'n bodloni'r meini prawf hyn gall gyfrif tuag at y targedau adfer.

Ni ddylid cyfrif unrhyw gynnyrch, deunydd neu sylwedd a ddefnyddir i ôl-lenwi[8] (yn cynnwys biowastraff wedi'i drin) fel gwastraff wedi'i adfer ar gyfer y targedau a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010. Ni ellir ystyried unrhyw ddeunydd a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio fel gorchudd dyddiol ar safle tirlenwi yn wastraff wedi'i adfer.

Lle caiff IBA sy'n deillio o'r broses o hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol ei ailgylchu i'r fath raddau ei fod yn peidio â bod yn wastraff drwy gydymffurfiaeth â meini prawf diwedd oes gwastraff (drwy Brotocol Ansawdd), gall ei bwysau sych gyfrif tuag at dargedau adfer awdurdod lleol.

Lle caiff APCR sy'n deillio o'r broses o hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol ei ailgylchu i'r graddau ei fod yn peidio â bod yn wastraff drwy gydymffurfiaeth â meini prawf diwedd oes gwastraff (drwy Brotocol Ansawdd perthnasol), gall pwysau sych y gyfran honno o APCR sy'n deillio o'r broses o hylosgi gwastraff trefol a gesglir gan awdurdod lleol gyfrif tuag at dargedau'r awdurdod lleol. Dyma fydd y ffracsiwn llwch, ac mae'n debygol o fod yn gyfran fach o bwysau cyffredinol gweddillion yr APCR. **Ni** all unrhyw bwysau o APCR o ganlyniad i ddeunydd a gyflwynwyd i adweithio ag isgynhyrchion y broses hylosgi gyfrif tuag at dargedau ailgylchu awdurdod lleol.

***Cwestiwn 2 - Yn eich barn chi, a oes angen gwneud unrhyw ychwanegiadau at y gwastraff a allai gyfrif tuag at dargedau adfer awdurdod lleol? Os felly, nodwch beth ddylai'r newidiadau hynny fod a pham y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.***

### 3.2.2 Diffiniad o baratoi i ailddefnyddio

Ar ôl atal gwastraff, paratoi i ailddefnyddio yw'r opsiwn ail orau yn yr hierarchaeth gwastraff a gall wneud cyfraniadau sylweddol at leihau'r ôl troed carbon ac ecolegol. Gall paratoi eitemau i'w hailddefnyddio hefyd greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a manteision ehangach o ran datblygu cynaliadwy ehangach.

Er mwyn i wastraff gael ei ystyried yn barod i'w ailddefnyddio, rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir yn Erthygl 4 o Orchymyn Targedau Ailgychu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011. Y tri gweithrediad adfer a ganiateir ar gyfer paratoi i ailddefnyddio yw gwirio, glanhau ac atgyweirio.

Mae'n bwysig iawn bod pob eitem sy'n cael ei pharatoi i'w hailddefnyddio yn cael ei gwirio'n drylwyr er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel, yn cyrraedd y safonau gofynnol ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r gyfraith cyn y gellir ei hailddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwirio, profi ac ardystio eitemau trydanol a chadarnhau bod dodrefn wedi'u clustogi ac eitemau eraill yn bodloni'r holl ofynion diogelwch tân.

[8] Ystyr ôl-lenwi yw gweithrediad adfer lle caiff gwastraff addas ei ddefnyddio at ddibenion adfer mewn ardaloedd wedi'u cloddio neu at ddibenion peirianneg wrth dirlunio a lle caiff y gwastraff ei ddefnyddio yn lle deunyddiau diwastraff.

Mae atgyweirio eitemau yn cynnwys amnewid cydrannau neu rannau sy'n hen, wedi'u difrodi neu nad ydynt yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys pob gweithrediad gwaith coed sy'n ofynnol i atgyweirio eitemau pren (yn cynnwys dodrefn), pob gweithrediad gwaith metel ar eitemau perthnasol, gosod gwydr newydd mewn drychau ac ati ac ail-glustogi dodrefn - a phob gweithrediad arall sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod eitem yn addas i'w defnyddio at y diben a fwriadwyd yn wreiddiol.

Unwaith y bydd yr eitemau wedi'u gwirio, eu glanhau a'u hatgyweirio i'r graddau eu bod yn barod i'w hailddefnyddio, gellir nodi eu pwysau ar WasteDataFlow fel eu bod yn cyfrif tuag at y targedau.

### 3.2.3 Diffiniad o gompostio a threuliad anerobig

Er mwyn ystyried bod gwastraff wedi'i gompostio, mae'n rhaid iddo fodloni'r meini prawf a nodir yn Erthygl 4 o Orchymyn Targedau Ailgychu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011. Mae Erthygl 5(1)(a) o'r Gorchymyn yn cadarnhau, at ddibenion adran 3 o Fesur Gwastraff (Cymru) bod 'compostio' yn cynnwys prosesau compostio a threuliad anerobig.

Gellir ystyried bod gwastraff bioddiraddadwy (e.e. gwastraff bwyd a gwastraff gardd gwyrdd) wedi'i gompostio os yw'n rhan o weithrediad adfer sy'n cynhyrchu cynnyrch, deunydd neu sylwedd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae Protocolau Ansawdd yn bodoli ar gyfer compostio a threuliad anerobig biowastraff arwahanol craidd. Er mwyn i fiowastraff beidio â bod yn wastraff ac er mwyn ei ystyried wedi'i ailgylchu, rhaid iddo gydymffurfio â'r Protocolau Ansawdd perthnasol. Ar gyfer compost, mae hyn yn golygu cydymffurfiaeth â'r Protocol Ansawdd (yn cynnwys Safon 100 sydd ar gael yn gyhoeddus) ac yn achos gweddillion treuliad anerobig mae'n golygu cydymffurfiaeth â'r Protocol Ansawdd (yn cynnwys Safon 110 sydd ar gael yn gyhoeddus). Gellir cyflwyno Rheoliadau'r CE yn lle'r Protocolau Ansawdd, a fyddai wedyn yn pennu'r meini prawf newydd o ran diwedd oes gwastraff. *Gweler Rhan A o'r 'Ymgynghoriad ar ddosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA)'.*

Lle bo compostau a gweddillion treuliad yn cydymffurfio â'r Protocolau Ansawdd neu'r meini prawf diwygiedig o ran diwedd oes gwastraff a nodir uchod, y swm yr ystyrir ei fod wedi'i adfer at ddibenion y targedau a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 fydd pwysau'r hyn a fydd yn mynd i gyfleuster compostio neu dreuliad anerobig heb gynnwys deunyddiau a wrthodwyd (yn cynnwys plastigau, metelau, gwydr, eitemau sy'n rhy fawr a lle y bo'n briodol fagiau startsh ŷd). *Mae hyn yn amodol ar eglurhad o ddad-ddyfrio - gweler Rhan A o'r 'Ymgynghoriad ar ddosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA)'.*

## 4.0 Monitro a chyflwyno adroddiadau

Bwriedir i'r targedau a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 hyrwyddo lefelau uwch o ailgylchu ac arwain at fanteision cydredol. Caiff hyn ei fonitro drwy gyflwyno data mewn modd cywir ac amserol, sy'n allweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth sy'n pennu targedau a'r strategaethau sy'n sail i'r ddeddfwriaeth honno sy'n hyrwyddo'r gwaith o reoli adnoddau cynaliadwy. Rhoddir blaenoriaeth uchel i'r gwaith o fonitro a chyflwyno adroddiadau yn erbyn y targedau adfer ac mae'n rhaid i bawb dan sylw ddeall eu priod rolau a dyletswyddau a'u cyflawni.

### 4.1 WasteDataFlow a gofynion cyflwyno adroddiadau

Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio cronfa ddata gwastraff genedlaethol WasteDataFlow fel ffordd o gyflwyno adroddiadau ar ffrydiau gwastraff mewn modd sy'n galluogi cyfraddau adfer i gael eu cyfrifo.

Mae'r cyfnodau adrodd yn dri mis yr un ac mae'n rhaid cyflwyno ffurflenni data o fewn mis i ddiwedd y cyfnod tri mis. Caiff y mis ar gyfer cyflwyno ffurflenni data ei adolygu'n barhaus o fis Ebrill 2012.

### 4.2 Cyrchfannau terfyn a chyfraddau gwrthod

Rhaid cyflwyno adroddiadau ar y targedau adfer statudol a bennwyd o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 mewn modd cywir a dim ond deunydd sydd wedi'i ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio neu wedi'i gompostio (yn cynnwys gweddillion sydd wedi'u treulio'n anerobig) a gaiff eu cynnwys wrth gyfrifo cyfraddau adfer. Mae cywirdeb y gwaith cyfrifo hwn yn dibynnu ar gyflwyno adroddiadau cywir ar gyfraddau gwrthod, yn cynnwys y rheini o gyfleusterau didoli ac ailbroseswyr - p'un a ydynt yn gysylltiedig drwy gontractau hirdymor neu drwy'r 'farchnad ar y pryd'; Oherwydd hyn mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn dilyn, cyhyd ag y bo'n ymarferol, llif deunyddiau ar ôl iddynt gael eu casglu. Mae'n bwysig bod cyrchfannau terfyn yn cael eu nodi cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol. Cyrchfannau terfyn deunyddiau fydd:

- Yr ailbrosesydd deunyddiau lle caiff deunyddiau eu hailgylchu, eu paratoi i'w hailddefnyddio neu eu compostio (yn cynnwys treuliad anerobig).
- Y cyfleuster gwaredu lle caiff deunyddiau a wrthodwyd yn ystod y broses o ddidoli deunyddiau y gellir eu hailgylchu, paratoi eitemau i'w hailddefnyddio neu gompostio (yn cynnwys treuliad anerobig) eu gwaredu.
- Y wlad gyntaf i allforio deunydd ar gyfer gweithrediadau adfer iddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU).

Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid monitro llifau deunydd o'r man casglu i'r cyrchfan terfyn priodol - i gynnwys nodi cyfleusterau didoli canolraddol. **Datblygwyd Cwestiwn 100 o WasteDataFlow i gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar ffrydiau gwastraff a rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio Cwestiwn 100 o 1af Ebrill 2012.**

Mae achlysuron lle gall deunyddiau a gasglwyd fynd drwy nifer o gamau rhwng casglu ac ailbrosesu ac yn ystod y rhain, gall gwastraff o awdurdodau lleol gwahanol gymysgu â gwastraff nad yw'n gysylltiedig â'r awdurdod lleol. **Gellir anfon y deunyddiau hyn hefyd at fwy nag un ailbrosesydd. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cofnodi cyfleusterau didoli canolraddol, cyfraddau gwrthod a chyrchfannau terfyn.**

Mae'n bwysig lle bydd awdurdodau lleol yn defnyddio contractwyr i gasglu a didoli deunyddiau gwastraff fod eu contractau yn nodi ei bod yn ofynnol cyflwyno data amserol a chywir i'r awdurdodau lleol. Byddai'r dull hwn o weithredu yn elwa o'i gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cyflwyno tendr am gontractau gytuno i ddefnyddio'r dulliau gweithredu a nodir yn Safon 402 sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer adrodd yn ôl i awdurdodau lleol. Unwaith y bydd deunyddiau yn mynd y tu hwnt i'r cam didoli cyntaf, dylai'r cyfleuster cam cyntaf (sylfaenol) fod yn gyfrifol am ofyn am wybodaeth am gyfraddau gwrthod a chyrchfannau nesaf gan gyfleusterau eilaidd. Yna dylai'r cyfleuster sylfaenol drosglwyddo'r wybodaeth i'r awdurdod/au lleol. Yn yr un modd, dylai cyfleusterau geisio cael gwybodaeth gan gyfleusterau trydyddol a'i throsglwyddo i'r cyfleuster sylfaenol - ac yn y blaen. Gwerthfawrogir y bydd monitro a chyflwyno adroddiadau ar ddeunyddiau a wrthodwyd a chyrchfannau nesaf, a hynny mewn modd cywir, yn dod yn anos wrth i'r deunyddiau fynd drwy ragor o gamau didoli a thrin cyn eu hailbrosesu. Bwriedir i'r dulliau gweithredu a nodir yn adran 4.3 helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno adroddiadau. Ar gyfer deunyddiau nad ydynt yn pwyso llawer, sydd wedi mynd drwy nifer o gyfleusterau gwahanol, gall amser a chost coladu a dychwelyd data wrthbwyso manteision olrhain y llifau deunydd. Lle bydd awdurdodau lleol o'r farn bod hyn yn wir, dylent ymgynghori â'r Awdurdod Monitro i geisio cytundeb ar y diffiniad o gyrchfan terfyn effeithiol. Bydd yr Awdurdod Monitro yn rhoi cyngor ar unrhyw ddulliau o weithredu ar sail de minimis.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi cyngor i awdurdodau lleol ar sut y gallent gyflwyno adroddiadau gwell ar gyrchfannau terfyn deunyddiau. Contractiwyd Eunomia Resarch and Consulting i baratoi papur trafod a dylai awdurdodau lleol ddefnyddio hwn i'w helpu i baratoi i gyflawni eu rhwymedigaethau.[9]

### 4.3 Dyrannu deunyddiau a wrthodwyd a samplu mewn Cyfleusterau Adfer Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill

Y dull symlaf o ddyrannu deunyddiau a wrthodwyd yw ar sail pro rata. Bydd cyfleuster gwastraff yn penderfynu faint o ddeunydd a ddarperir iddo o wahanol ffynonellau, p'un a yw'r cyfleuster yn swmpgasglu deunyddiau neu'n eu didoli cyn eu swmpgasglu. Felly mae'n hawdd cyflwyno adroddiadau ar ganran yr hyn sy'n cyrraedd cyfleuster o awdurdod lleol penodol. Bydd yr hyn sy'n gadael cyfleuster didoli yn cael ei rannu'n dri chategori sylfaenol:

- Deunydd y gwrthodwyd ei waredu.
- Deunydd a ddidolwyd i safon sy'n golygu y caiff ei dderbyn gan ailbrosesydd.

[9] Eunomia Consulting Ltd: Local Authority Reporting of End Destinations in Wales – A Discussion Paper.

- Deunydd a ddidolwyd ond y mae angen ei ddidoli ymhellach cyn iddo y caiff ei dderbyn gan ailbrosesydd.

Darperir yr enghraifft ganlynol i esbonio sut mae angen gwneud y gwaith cyfrifo.

**Enghraifft 1**

Pe gwrthodir gwaredu 10% o'r deunydd sy'n cyrraedd cyfleuster didoli gwastraff, yna ystyrir bod 10% o'r holl ddeunydd sy'n cyrraedd y cyfleuster hwnnw o awdurdod lleol penodol wedi'i wrthod. Felly, os yw awdurdod lleol yn anfon 1000 tunnell i gyfleuster didoli sydd â chyfradd gwrthod deunyddiau gyffredinol o 10%, yna nodir ar WasteDataFlow bod 100 tunnell wedi'i wrthod.

Bydd deunydd o ansawdd digonol a gaiff ei dderbyn gan ailbrosesydd yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd nad yw'n cyfrannu at y targed a gaiff ei wrthod gan yr ailbrosesydd. Oni chaiff y deunyddiau hyn nad ydynt yn cyfrannu at y targed eu hailgylchu o ganlyniad i drefniadau a wnaed gan yr ailbrosesydd, gwrthodir eu gwaredu. Yn yr un modd, bydd angen eu cyfrif fel deunyddiau a wrthodwyd ar WasteDataFlow.

Os caiff 70% o'r deunydd sy'n cyrraedd Cyfleuster Adfer Deunyddiau ei anfon i ailbrosesydd sydd wedyn yn gwrthod 10% o'r deunydd a dderbyniwyd, yna bydd 7% o'r hyn sy'n cyrraedd o awdurdod lleol penodol yn ddeunydd y gwrthodwyd ei waredu yn yr ailbrosesydd. Felly, os yw awdurdod lleol yn anfon 1000 tunnell i gyfleuster didoli, yna nodir ar WasteDataFlow bod 70 tunnell wedi'i wrthod yn yr ailbrosesydd.

Caiff deunydd nad yw ei ansawdd yn ddigon da i gael ei dderbyn gan ailbrosesydd ei anfon i gyfleuster didoli dilynol (eilaidd, trydyddol ac ati) hyd nes y bydd ei ansawdd yn ddigon derbyniol i'r ailbrosesydd ei dderbyn.

Os caiff 20% o'r deunydd sy'n cyrraedd Cyfleuster Adfer Deunyddiau ei anfon i gyfleuster didoli eilaidd ac felly i ailbroseswyr ac os bydd y broses waredu yn arwain at hanner y deunydd yn cael ei ailgylchu a hanner yn cael ei waredu yna, o'r 1000 tunnell a ddaeth o'r awdurdod lleol penodol, gwrthodir gwaredu 100 tunnell a nodir hynny ar WasteDataFlow.


Effaith net y deunyddiau a wrthodwyd drwy'r tri chategori gwahanol a nodwyd yw y dylai awdurdod lleol sy'n anfon 1000 tunnell i'r cyfleuster didoli cychwynnol nodi'r canlynol ar WasteDataFlow:

gwrthodwyd gwaredu **270 tunnell**;

ailgylchwyd **730 tunnell**.

Dengys Ffigur 1 y tri phrif lwybr lle y caiff deunyddiau a wrthodir eu cynhyrchu ac y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt drwy WasteDataFlow, gan ddefnyddio Enghraifft 1 uchod.

**Ffigur 1 - Colli deunyddiau o ganlyniad i wrthod a'r symiau y dylid nodi eu bod wedi'u gwrthod drwy WasteDataFlow**




Dylai'r un dull gweithredu a nodir yn Enghraifft 1 fod yn gymwys i bob deunydd, cyfleuster adfer deunyddiau, gorsaf swmpgasglu ac ailbrosesydd, ni waeth sut y cesglir y deunyddiau. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i gyflwyno adroddiadau, mewn modd cywir, ar bob deunydd a wrthodir ac nad yw yn sgil hynny yn cael ei ailgylchu, yn gyson â'r cyfyngiadau a nodir yn adran 4.1.

Bydd gan awdurdodau lleol lefelau halogi gwahanol o ran y deunyddiau a gesglir ganddynt, yn dibynnu ar sut y caiff y deunydd ei gasglu. Bydd system adrodd sy'n seiliedig ar ddosrannu yn cynnig manteision ac anfanteision amrywiol. Mae'n rhywbeth y dylai pob awdurdod lleol ei ystyried wrth benderfynu ar y detholiad o gyfleusterau didoli ar gyfer ei ddeunyddiau.

Mae dosrannu yn ddewis amgen i samplu, felly yn hytrach nag asesu deunyddiau a wrthodwyd ar sail pro rata yn seiliedig ar fewnbynnau, caiff y mewnbynnau eu hunain eu samplu a phennir yr amcangyfrifon o ddeunydd wedi'i wrthod tebygol ar sail y gallu a aseswyd i ailgylchu deunyddiau cydrannol. Gall y dull hwn o weithredu arwain at ddata mwy cywir ar gyfer pob awdurdod unigol. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn fwy beichus. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod Monitro (sef Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd) y dylid samplu mewnbynnau o ddeunydd didoli, ac mae angen rhoi sicrwydd i'r Awdurdod hwnnw bod y broses samplu yn cynrychioli'r mewnbynnau, bod amlder y samplu yn briodol a bod y protocolau a'r arferion samplu mor gadarn fel y bydd data cywir yn cael ei ddarparu i'w gynnwys ar WasteDataFlow.

### 4.4 Amseru'r broses o fewnbynnu data adfer (ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio) ar WasteDataFlow

Bydd y gwaith o gyfrifo cyfraddau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio awdurdod lleol yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan awdurdodau lleol i WasteDataFlow (WDF). Cyfrifir y perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau drwy ystyried:

Cyfanswm y Gwastraff a gaiff ei Adfer/Cyfanswm Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol x 100, fel ym mharagraff 2 o'r Canllawiau hyn.

Yn gyffredinol, mae WDF yn cynnwys dau fath o ddata: data ar ddeilliannau a data ar gyrchfannau. Swm o dunelli o ddeilliannau yw'r rhifiadur cyfredol (Cyfanswm y Gwastraff a gaiff ei Adfer) (a nodir yn C10, 11, 12, 16, 17, 18, 33 a 34 o WDF), llai unrhyw ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a gaiff eu gwrthod a fewnbynnir drwy gydol WDF, yn ogystal ag unrhyw ailgylchu gweddilliol. Yn sgîl y datblygiadau i WDF (Cwestiwn 100), a'r targedau ailgylchu statudol newydd i'w cyflwyno yn 2012-13, cynigir newid y ffordd y caiff y rhifiadur hwn ei gyfrifo.

Bellach, swm yr holl fathau o ddeunydd perthnasol a fewnbynnir i WDF (ac eithrio cerbydau wedi'u gadael) fel deunydd a anfonwyd i gyrchfannau fydd Cyfanswm y Deunydd a gaiff ei Adfer, h.y. y tunelli a fewnbynnir yn erbyn Cyrchfan Terfynol yng Nghwestiwn 100 (neu Gwestiynau 19, 19a a 35 o'r hen system).

Mae'r dull newydd hwn yn symleiddio'r hafaliad yn sylweddol ac mae'n gynrychioliad mwy cywir o'r hyn a gaiff ei ailgylchu mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod hwnnw a'r ffordd y caiff gwastraff ei reoli yn gyffredinol, gan awdurdod lleol.

***Cwestiwn 3 - Yn eich barn chi, a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r disgrifiad o'r gofynion adrodd i ategu targedau paratoi i ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio awdurdodau lleol? Os felly, nodwch beth ddylai'r newidiadau hynny fod a pham y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.***

***Cwestiwn 4 - Yn eich barn chi, a ddylai Gweinidogion Cymru ymgynghori ar y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyfleuster sy'n rheoli gwastraff yng Nghymru gyflwyno adroddiadau ar faint o ddeunydd y mae'n ei wrthod, cyrchfannau nesaf deunyddiau a anfonir o'r cyfleusterau hyn a gwybodaeth gysylltiedig arall?***

## Ymgynghoriad ar ddad-ddyfrio, dosrannu cyfraddau ailgylchu o dreulio anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA)

Cynigir y dylid cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn diffinio'r sefyllfa mewn perthynas â dad-ddyfrio gweddillion treuliad o gyfleusterau treuliad anerobig a dosrannu cyfraddau adfer o dreuliad anerobig, compostio ac ailgylchu lludw gwaelod llosgydd (IBA) a gweddillion rheoli llygredd (APCR) ar gyfer cyfleusterau sy'n cymryd porthiant o nifer o ffynonellau (h.y. awdurdod lleol ac nad yw'n ymwneud â'r awdurdod lleol).

### (A) Dad-ddyfrio gweddillion treuliad anerobig


Un o ddibenion treuliad anerobig gwastraff bwyd a gesglir gan awdurdod lleol yw dychwelyd deunydd a maetholion organig i'r pridd (neu i blanhigion drwy ffyrdd nad ydynt yn ymwneud â thyfu yn y pridd, fel hydroponeg a diwylliant algal). O ganlyniad i hynny, mae'n bwysig bod unrhyw gyfraniad tuag at gyfraddau compostio yn adlewyrchu'r gwaith gwirioneddol o ailgylchu maetholion planhigion yn ogystal â charbon.

Lle bo allbynnau gweddillion treuliad anerobig yn cydymffurfio â Phrotocol Ansawdd treuliad anerobig a bwriedir eu cymhwyso at dir, gellir ystyried yr holl fewnbynnau (llai deunyddiau a wrthodwyd) fel gwastraff wedi'i gompostio. Lle caiff rhywfaint o'r gweddillion treuliad ei waredu i hwyluso proses trawsgludo allbynnau haws (yn cynnwys dad-ddyfrio gweddillion treuliad) yna bydd angen monitro a chyflwyno adroddiadau ychwanegol i ddangos nad yw dad-ddyfrio yn atal y broses o adfer maetholion.

Y metrig a ddewiswyd i fonitro'r broses o adfer maetholion planhigion yw cyfanswm y nitrogen a chyfanswm y solidau a gaiff eu cadw mewn gweddillion treuliad solid a wahanwyd neu grynodiad ôl-driniaeth a gaiff ei gymhwyso at dir er budd amaethyddol (neu ei ddefnyddio mewn hydroponeg neu ddiwylliant algal).

Gellir dangos cyfraniad treuliad anerobig tuag at dargedau adfer awdurdod lleol (lle bydd dad-ddyfrio'n digwydd) fel yn Ffigur A isod.

**Ffigur A - Cyfrifo cyfradd gompostio cyfleuster treuliad anerobig sy'n dad-ddyfrio gweddillion treuliad**




Mae'r camau gwahanol a nodwyd yn y diagram yn cyfrannu at gyfradd gompostio awdurdod lleol. Defnyddir y lleiaf o naill ai cyfran Cyfanswm y Nitrogen a Ailgylchir (TNR) neu gyfran Cyfanswm y Solidau a Ailgylchir (TSR) i gyfrifo'r gyfradd gompostio, fel y pennir gan y fformiwla isod:

A = Y deunydd a fewnbynnir yn ystod cam 1 heb gynnwys deunyddiau a wrthodwyd (bagiau plastig, cyllyll a ffyrc, esgyrn a deunydd anadweithiol arall)
$B_N$ = Cyfanswm y nitrogen yn y gweddillion treuliad cyfan yn dilyn cam 2
$C_N$ = Cyfanswm y nitrogen mewn gweddillion treuliad solid yn dilyn cam 3
$D_N$ = Cyfanswm y nitrogen yn y crynodiad yn dilyn cam 4

$B_S$ = Cyfanswm y Solidau mewn gweddillion treuliad cyfan yn dilyn cam 2
$C_S$ = Cyfanswm y Solidau yn y gweddillion treuliad solid yn dilyn cam 3
$D_S$ = Cyfanswm y Solidau yn y crynodiad yn dilyn cam 4

Cyfran Cyfanswm y Nitrogen mewn cynhyrchion, deunyddiau neu sylweddau a ailgylchwyd [TNR] sy'n cydymffurfio â meini prawf diwedd oes gwastraff (fel canran o'r hyn a geir yn y gweddillion treuliad cyfan) = $([C_N + D_N] / B_N) \times 100$.

Cyfran Cyfanswm y Solidau mewn cynhyrchion, deunyddiau neu sylweddau a ailgylchwyd [TSR] sy'n cydymffurfio â meini prawf diwedd oes gwastraff (fel canran o'r hyn a geir yn y gweddillion treuliad cyfan) = ([$C_S$ + $D_S$] / $B_S$) x 100.

Faint o wastraff bwyd a all gyfrif tuag at y targedau adfer = y swm lleiaf o naill ai A x TNR, neu A x TSR.

Dylai gweithredwyr cyfleusterau treuliad anerobig fod yn gytundebol gyfrifol am gyfrifo TNR a TSR a chyflwyno adroddiadau ar y rhain i awdurdodau lleol. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cyfrifo A x (y lleiaf o TN a TSR) a mewnbynnu'r data ar WasteDataFlow.

Dim ond yn seiliedig ar waith samplu a mesur cadarn y gellir gwneud y cyfrifiadau uchod. Bydd angen samplu, mesur a chyflwyno adroddiadau i'r awdurdod lleol ar bwysau, cyfraddau llif, cyfeintiau a chrynodiadau pob un o'r canlynol:

- Mewnbynnau gwastraff bwyd a gasglwyd.
- Gweddillion treuliad cyfan.
- Ffracsiwn ffibrog sy'n cydymffurfio â meini prawf diwedd oes gwastraff a gafwyd ar ôl gwahanu gweddillion treuliad cyfan.
- Crynodiad sy'n cydymffurfio â meini prawf diwedd oes gwastraff yn sgil dal maetholion (e.e. i'r gwrthwyneb o osmosis).

Dylid samplu a mesur bob chwarter o leiaf a rhaid i awdurdodau lleol gadw'r holl ddata uchod i'r Awdurdod Monitro ei archwilio er mwyn helpu i ddilysu'r data a gyflwynwyd drwy WasteDataFlow.

**Enghraifft A**

Nodir effaith gwerthoedd posibl TNE a TSR ar faint o wastraff bwyd a all gyfrif tuag at dargedau adfer, gan ystyried dad-ddyfrio, isod.

Gan dybio bod awdurdod lleol yn anfon 200 tunnell o wastraff bwyd i gyfleuster treuliad anerobig sy'n dad-ddyfrio'r gweddillion treuliad a gynhyrchir c yn monitro TNR a TSR fel uchod, yna os yw TNR yn 85% a TSR yn 80%, swm y mewnbwn a all gyfrannu at dargedau adfer yw:

200 x 80% (TSR) = 160 tunnell.

Mae hyn yn gymwys i gyfleuster lle mae'r allbynnau o Gamau 3 a 4 uchod yn cydymffurfio â Phrotocolau Ansawdd a lle y cânt eu rhoi ar y tir.

***Cwestiwn 5 - A ydych yn cytuno â'r dull arfaethedig o ddad-ddyfrio? Os nad ydych, esboniwch beth ddylai'r dull fod yn eich barn chi.***

### (B) Dosrannu mewn perthynas â gweddillion treuliad anerobig

Gwerthfawrogir y bydd cyfleusterau treuliad anerobig a chompostio ar gael ar adegau gwahanol dros y blynyddoedd i ddod ac y bydd y gwaith o'u hachredu unwaith y cânt eu comisiynu yn cymryd amser. At hynny, mae rhai o'r cynigion i redeg cyfleusterau treuliad anerobig wedi nodi bod y farchnad i ddefnyddio gweddillion treuliad anerobig fel cyflyrydd pridd yn anaeddfed. Yn sgil hyn maent wedi gofyn, am gyfnod cyfyngedig o amser, i'r allbynnau a ddefnyddir fel cyflyrydd pridd neu wrtaith gael eu hystyried i bob pwrpas fel allbynnau sy'n deillio o'r gyfran honno o fewnbynnau i'r gwaith treuliad anerobig a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y 'dosraniad' yn sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu cyfrif eu mewnbynnau i gyd (llai deunyddiau a wrthodwyd) i gyfleusterau treuliad anerobig tuag at y targedau adfer statudol, fel y cynigir isod.

- 1af Ebrill 2012 ymlaen, mae'n rhaid i gyfleusterau compostio neu dreuliad anerobig sy'n bodoli eisoes sy'n cael biowastraff trefol gan awdurdodau lleol naill ai gynhyrchu compostau neu weddillion treuliad sy'n cydymffurfio â Phrotocolau Amsawdd neu fod wrthi'n gwneud cais am achrediad priodol. Mae'n rhaid i'r cyfleusterau hyn gynhyrchu allbynnau Protocol Ansawdd erbyn 1af Ebrill 2014, er mwyn sicrhau bod mewnbynnau'r awdurdod lleol yn cyfrif tuag at y targedau adfer.
- Ar ôl 1af Ebrill 2012 rhaid i unrhyw gyfleusterau compostio neu dreuliad anerobig sy'n dechrau cael biowastraff trefol gan awdurdodau lleol gael achrediad priodol o fewn dwy flynedd i gael eu comisiynu, er mwyn sicrhau bod mewnbynnau'r awdurdod lleol yn cyfrif tuag at y targedau adfer.
- Erbyn 1af Ebrill 2019, rhaid i bob cyfleuster sy'n cael biowastraff trefol gan awdurdodau lleol fod wedi'i achredu'n briodol a chynhyrchu compostau neu weddillion treuliad sy'n cydymffurfio â'r Protocolau Ansawdd, er mwyn sicrhau bod mewnbynnau'r awdurdod lleol yn cyfrif tuag at y targedau adfer.

**<u>Ni all</u> unrhyw gyfleusterau a ddefnyddir i gompostio neu dreulio gwastraff organig trefol mewn modd anerobig ac nad ydynt wedi'u hachredu neu yn y broses o gael achrediad ffurfiol, gyfrannu at y targedau adfer o fis Ebrill 2012 ymlaen.**

Gall cyfleusterau treuliad anerobig gynhyrchu gweddillion treuliad sy'n cydymffurfio â PAS 110 y bwriedir ei roi ar y tir i'r graddau y bo'n bodloni'r meini prawf o ran Protocolau Ansawdd/Diwedd Oes Gwastraff ac, yn dibynnu ar farchnadoedd ar gyfer gweddillion treuliad, gallant anfon rhywfaint o'u gweddillion treuliad at ddefnydd nad yw'n ymwneud â thir. Lle bo hyn yn wir, ystyrir ei bod yn briodol rhoi ystyriaeth gymesur i fewnbynnau - yn seiliedig ar gyfanswm y solidau - o awdurdodau lleol yng Nghymru ac allbynnau o gyfleusterau treuliad anerobig. Lle y bo'n berthnasol, gellir trin compostau PAS 100 a gynhyrchir mewn cyfleusterau compostio yn yr un ffordd. **Felly, lle bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu 50% o'r allbynnau i broses treuliad anerobig a lle y bwriedir rhoi o leiaf 50% o'r allbynnau ar y tir**

**yn unol â'r Protocol Ansawdd, yna gall awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrif eu holl fewnbynnau (heb gynnwys deunyddiau a wrthodwyd) tuag at y targedau adfer.**

O Ebrill 1af 2019 bydd cymhwysiad pro rata yn gymwys. Os yw 50% o allbwn gweddillion treuliad cyffredinol cyfleuster yn cydymffurfio â Phrotocolau Ansawdd **a** bwriedir ei roi ar y tir, yna bydd 50% o fewnbynnau'r awdurdod lleol (heb gynnwys gwastraff a wrthodwyd) yn gymwys i dargedau adfer.

**Enghraifft B**

Lle bo'r cyfleusterau treuliad anerobig (neu gompostio) dan sylw naill ai wedi'u hachredu neu'n ceisio achrediad ffurfiol fel y disgrifiwyd yn flaenorol:

**(1)** Os yw awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu 200 tunnell (ar ôl deunyddiau a wrthodwyd) i waith treuliad anerobig a chynhyrchir 800 tunnell o weddillion treuliad, y rhoddir y cyfan ohono ar y tir, yna y gyfradd adfer i'w chyfrif tuag at berfformiad yr awdurdod lleol yw 100% (cyfwerth â 200 tunnell).

**(2)** Os yw awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu 200 tunnell (ar ôl deunyddiau a wrthodwyd) i waith treuliad anerobig sy'n gallu dal 1000 tunnell a chynhyrchir 800 tunnell o weddillion treuliad, y rhoddir 200 tunnell ohono ar y tir, yna y gyfradd adfer i'w chyfrif tuag at berfformiad yr awdurdod lleol yw 200% (cyfwerth â 200 tunnell) tan fis Ebrill 2019.

**(3)** Os yw awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu 200 tunnell (ar ôl deunyddiau a wrthodwyd) i waith treuliad anerobig sy'n gallu dal 1000 tunnell a chynhyrchir 800 tunnell o weddillion treuliad, y rhoddir 200 tunnell ar y tir, yna y gyfradd adfer i'w chyfrif tuag at berfformiad yr awdurdod lleol yw 25% (cyfwerth â 50 tunnell) ar ôl mis Ebrill 2019.

### (C) Dosrannu mewn perthynas â Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) a Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)

Lle caiff gwastraff trefol awdurdod lleol ei losgi pennir cyfraniad unrhyw IBA a gaiff ei ailgylchu'n llwyddiannus at dargedau'r awdurdod lleol yn ôl cyfradd ailgylchu gyffredinol y cyfleuster.

Gellir gweithredu yn yr un ffordd o ran APCR, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir ym mharagraff 3.1.7. o'r Canllawiau drafft i ategu Gorchymyn Targedau Ailgychu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011.

| **Enghraifft C**<br><br>Gan dybio bod 100,000 tunnell o wastraff trefol awdurdod lleol yn cael ei anfon i losgydd, gydag Awdurdod A yn darparu 50,000 tunnell, Awdurdod B yn darparu 30,000 tunnell ac Awdurdod C yn darparu 20,000 tunnell. Os bydd y llosgydd yn lleihau 100,000 o fewnbwn i 20,000 tunnell ac yn ailgylchu'r cyfan ohono yn unol â Phrotocol Ansawdd IBA, yna gall Awdurdod A gyfrif 10,000 tunnell tuag at ei dargedau ailgylchu, Awdurdod B 6,000 tunnell ac Awdurdod C 4,000 tunnell.<br><br>Os caiff 25% o'r IBA a gynhyrchir ei ailgylchu yn unol â Phrotocol Ansawdd IBA, yna gall Awdurod A gyfrif 2,500 tunnell tuag at ei dargedau ailgylchu, Awdurdod B 1,500 tunnell ac Awdurdod C 1,000 tunnell.<br><br>Os bydd yr awdurdodau lleol uchod yn darparu'r un pwysau o wastraff trefol awdurdod lleol i losgydd sydd hefyd yn derbyn 100,000 tunnell o wastraff nad yw'n wastraff trefol awdurdod lleol, yna cyfradd ailgylchu'r cyfleuster, yn gyffredinol, sy'n pennu cyfraddau ailgylchu’r awdurdodau lleol.<br><br>Felly, os bydd y cyfleuster, ar y cyfan, yn cynhyrchu 40,000 tunnell o IBA ac yn ailgylchu 25% ohono, yna gall Awdurdod A gyfrif 2,500 tunnell tuag at ei dargedau ailgylchu, Awdurdod B 1,500 tunnell ac Awdurdod C 1,000 tunnell. |
|---|

Cynigir y bydd y dull hwn o weithredu yn gymwys i IBA ac APCR o ynni presennol ac ynni newydd o gyfleusterau gwastraff.

***Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddosrannu (i) gweddillion treuliad anerobig a chompostau, (ii) lludw gwaelod llosgydd wedi'i ailgylchu a (iii) gweddillion rheoli llygredd aer (APCR) tuag at dargedau adfer? Os nad ydych, esboniwch beth ddylai'r dull fod yn eich barn chi.***

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi Offeryn Statudol ac yn ymgynghori arno, a fydd yn darparu eglurder cyfreithiol ar y materion hyn.